Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Polisi Gwisg Ysgol

1. Rhagarweiniad

Ein polisi yw y dylai pob plentyn wisgo gwisg ysgol wrth fynychu'r ysgol neu wrth gymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan yr ysgol y tu allan i'r oriau ysgol arferol. Rydym yn darparu rhestr gyflawn o'r eitemau gwisg ysgol yn ein Prosbectws Ysgol, ar ein Gwefan Ysgol www.yggcn.co.uk ac fel Atodiad i'r polisi hwn.

2. Nodau ac Amcanion

Mae ein polisi yn seiliedig ar yr egwyddor fod gwisg ysgol :

- yn hyrwyddo synnwyr o falchder yn yr ysgol;
- yn creu teimlad o gymuned ac o berthyn;
- yn ymarferol ac yn drwsiadus;
- yn cysylltu'r plant â'r ysgol;
- nad yw'n tynnu sylw yn y dosbarth (fel y gall dillad ffasiwn ei wneud)
- yn peri i blant deimlo'n gyfartal â'u cyfoedion yn nhermau gwedd;
- yn cael ei gweld yn addas, a'i hystyried yn werth da am arian, gan y rhan fwyaf o rieni;
- wedi cael ei chynllunio gydag iechyd a diogelwch mewn golwg.

3. Gemwaith

Ar sail iechyd a diogelwch nid ydym yn caniatáu i blant wisgo gemwaith yn ein hysgol. Yr eithriadau i'r rheol hon yw watsys, a stydiau clustdlysau mewn clustiau wedi'u tyllu. Byddwn yn gofyn i'r plant dynnu'r darnau uchod cyn cychwyn gwersi Addysg Gorfforol, neu i roi plaster drostynt.

4. Gwallt Eithafol

Nid yw'r ysgol yn caniatáu i blant dorri na lliwio eu gwalltiau mewn modd a allai dynnu sylw gormodol gan ddisgyblion eraill.

5. Colur a lliw ewinedd

Nid yw'r ysgol yn caniatáu i blant wisgo colur na lliw ewinedd. Am resymau iechyd a diogelwch, teimlwn ei bod o les i bob disgybl fod ewinedd yn cael eu cadw'n gymharol fyr.

6. Esgidiau a sanau

Mae'r ysgol am i'r holl blant dyfu'n oedolion iach. Credwn ei bod yn beryglus i blant wisgo esgidiau â gwadnau platfform neu sodlau uchel yn yr ysgol, felly ni fyddwn yn caniatáu hyn. Yn ogystal, am resymau iechyd a diogelwch amlwg, rhaid i blant wisgo sanau o dan eu hesgidiau.

7. Rôl rhieni

Gofynnwn i bob rhiant sy'n anfon eu plant i'n hysgol gefnogi'r polisi gwisg ysgol hwn. Credwn fod dyletswydd ar rieni i anfon plant i'r ysgol wedi eu gwisgo'n addas. Dylai rhieni sicrhau fod y wisg gywir gan eu plant, a'i bod yn lân ac yn drwsiadus.

Os oes gan unrhyw riant wrthwynebiad i'n polisi gwisg ysgol, dylent drafod y peth yn y lle cyntaf gyda'r pennaeth.

8. Swyddogaeth y Corff Llywodraethu

Mae'r Corff Llywodraethu yn cefnogi'r pennaeth yn llwyr wrth weithredu'r Polisi Gwisg Ysgol. Bydd y Corff yn ystyried unrhyw sylwad a wnaed gan rieni ynghylch y polisi hwn, ac yn cydweithio â'r pennaeth i sicrhau fod y polisi yn cael ei weithredu'n deg a chyda sensitifrwydd.

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw sicrhau bod y wisg ysgol yn diwallu'r holl anghenion cenedlaethol parthed cyfleoedd cyfartal, a bod ein polisi gwisg ysgol yn gydnaws â'n polisi ar gyfleoedd cyfartal.

9. Monitro ac adolygu

Wrth fonitro'r polisi hwn bydd y Corff Llywodraethu yn:

- sicrhau eu bod yn cytuno â'r polisi, ac yn ei gefnogi'n llwyr;
- ystyried, yn ôl cais gan y pennaeth, unrhyw geisiadau oddi wrth rieni i blant unigol gael eu heithrio rhag cydymffurfio â'r polisi hwn;
- gofyn i'r pennaeth roi adroddiad i'r llywodraethwyr o'r modd y mae'r polisi yn cael ei weithredu.

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y Corff Llywodraethu yn ôl yr angen.

Llofnodwyd: **Mrs E. M. Youngman** **(Cadeirydd y Corff Llywodraethu)**

Dyddiad: **14.2.2011**

ATODIAD

1. Mae gan Ysgol Gymraeg Castell-nedd wisg ysgol swyddogol:

Crys polo gwyn neu goch *
Crys chwys coch (gwddf crwn * neu wddf 'V' *)
'Hwdi' coch *
Crys 't' Addysg Gorfforol coch neu wyn *
Cardigan goch
Ffrog 'gingham' goch neu wyn – tymor yr Haf
Trowsus du neu lwyd
Trowsus loncian du, plaen
Sgert (i'r pen-glin), ffrog pinafore neu culottes du neu lwyd
Byrion/Siorts du neu lwyd, plaen – Tymor yr Haf
Tynion du, llwyd neu goch
Sanau du, gwyn, llwyd neu goch

Ni chaniateir y dillad canlynol **(o 28.2.11 ymlaen):**

'Leggings' neu 'jeggings' o unrhyw fath
Trowsus tracwisg/loncian â logos mawr neu streipiau chwaraeon/'designer'
Byrion/Siorts â logos mawr neu streipiau chwaraeon/'designer'
'Skins'
'Hwdis' na chrysau chwys ag enwau'r plentyn arnynt [am resymau Diogelwch Plant]

* Mae'r dillad sydd ag asterics wrth eu hymyl ar werth o Swyddfa'r Ysgol AM Y PRIS COST

2. O **Fis Medi 2011** disgwylir i bob plentyn wisgo esgidiau ysgol du traddodiadol neu 'trainers' du plaen. Caniateir gwisgo 'boots' i'r migwrn neu hanner ffordd i'r pen-glin (**nid** 'Uggs' a'u tebyg) mewn tywydd gwael. Yn ogystal, caniateir sandalau coch, gwyn neu ddu (gyda sanau) yn nhymor yr Haf.

Ni chaniateir i blant wisgo 'Crocs', flip-flops na sandalau Rhufeinig/'gladiator', a'u tebyg, o 28.2.11 ymlaen.